

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 15fed Fedi 2015

Presennol -Einion Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, Hefin Edwards, Ieuan Jones, Alun Jones, John D Jones, Peter Lewis Cyng. Sir, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Guto G Jones, Prys Ellis, Helen Ellis

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28ain Orffennaf 2015

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Dywedodd y clerc iddo dderbyn neges gan yr heddlu nad oeddent yn medru bod yn bresennol ,ynghyd hefyd ar adroddiad canlynol o ddigwyddiadau diweddar yn y gymuned;

[a] 3 achos o fod yn wrthgymdeithasol

[b] Moduron yn gyrru o fewn y gwaharddiad cyflymder ar Ffordd Rhuthun

[a] Lladrata peiriant gyrru cwch o Lyn Brenig

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Y clerc i drefnu cwrdd gyda Ms Siân Williams o'r Cyngor Sir. Cytunodd Alun Jones I fod yn bresennol.

[1.2] Trefnu ar gyfer Argyfwng

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Gwasanaeth Iechyd/Gofal Cleifion Ysbyty Glan Clwyd

Nodwyd ateb gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr I gŵyn gan y Cyngor ynglŷn â gofal cleifion yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar.

[1.4] Gwasanaeth Sgip

Dywedodd y clerc ei fod wedi trefnu gwasanaeth sgip ym maes parcio'r Llew Gwyn ar gyfer dydd Sadwrn 26ain Fedi

[1.5] Goleuadau Nadolig

Nodwyd ateb y Cyngor Sir y bydd rhaid i swyddog gael golwg ar y goleuadau trydan presennol yn y lle cyntaf.

[1.6] Arwyddion Cwn

Y clerc i gysylltu gyda'r warden cwn ynglŷn â'r arwyddion yng Nghae Llwyd.

[1.7] Hylwysydd Tai Gwledig

Dywedodd y clerc nad oedd dim gair pellach wedi ei dderbyn oddiwrth Ms Buddug Williams ynglŷn a'r crynodeb o ganlyniad y cyfarfod a gynhaliwyd yn y ganolfan ar y 25ain Fehefin.

[1.8] Traciau Beics

Cytunodd y Cyng. Peter Lewis I wneud ymholiadau ynglyn a nad oedd symbol bellach yn arddangos ar y pyst yn cyfeirio bod y traciau ar gyfer beicio.

Y brif agenda

[1.9] Banc HSBC Cerrig-y-Drudion

Cyfeiriodd y clerch at lythyr oddiwrth HSBC yn rhybuddio bod y banc yn y llan yn cau ar y 13eg Dachwedd 2015. Eglurodd ei fod eisoes wedi ysgrifennu at y banc yn gwrthwynebu a dylai bob ymdrech gael ei wneud i sicrhau os i'r banc gau, bod y peiriant arian parod yn cael ei gadw yn y pentref.

[2] Archwiliad Trydanol/Ystafell Blwyf

Dywedodd y clerch bod yr archwiliad wedi cwblhau ac nad oedd angen sylw.

[2.1] Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol

Nodwyd y llythyr oddiwrth Cyngor BS Conwy yn ceisio sylwadau ynglŷn a'r uchod. Penderfynwyd i gynnwys y canlynol i'r rhestr a dderbyniwyd o'r adeiladau o bwysigrwydd yn yr ardal ; Fferm Llaethwryd, Yr Ystafell Blwyf, Yr Ystafell Snwcer, Gwestai'r Llew Gwyn a'r Queens, Llechwedd Llyfn, Felin Bwlch

Cadeirydd \_\_\_\_\_